| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod misol dyddiedig 16eg o Fedi 2025 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Eifion Williams | Cynog Prys | |
| Llŷr Evans | Daniel Williams | |
| Meleri Jones | Deiniol Tegid | |
| Dafydd Hughes | Emyr Gareth | |
| Iolo Williams | Siân Williams | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams.(Cadeirydd). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Humphreys, Cynghorydd Owain Jones ar Cynghorydd Eleri Wyn Thomas. i. Pwyllgorau - penderfynwyd aelodaeth y pwyllgorau: Rheolaeth - Dan Williams, Cynog Prys, ac Eifion Wyn Williams, Siân Williams, Owain Jones, Meleri Jones Asedau Eifion Williams, Emyr Gareth, Dafydd Huws, Eleri Wyn Thomas, Siân Williams, Gareth Humphreys, Owain Jones Llwybrau Cyhoeddus, Lon Las a Phriffyrdd Llŷr Evans, Dafydd Huws, Eleri Wyn Thomas, Emyr Gareth, Deiniol Tegid, Iolo Williams Y Neuadd Goffa a Chloc Daniel Williams, Eifion Williams, Llŷr Evans a Cynog Prys, Meleri Jones, Deiniol Tegid, Iolo Williams, Gareth Humphreys ii. Cynrychiolydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd y Felinheli - dim penderfyniad hyd yma. Penderfynu yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **1.2** | Costau prydles - eglurodd y Clerc bod costau arfaethedig wedi eu derbyn go gyfer prydles gyda chyfnod hir. Penderfynwyd bod y Clerc yn gwneud ymholiadau os byddai modd newid prydles fer i un hir ar ôl cyfnod heb orfod cofrestru ac yn y blaen. Y Clerc i wneud penderfyniad wedi'r wybodaeth ddod i law. Dilyniant - Yn dilyn ymholiad a Chyngor Gwynedd cafwyd gwybodaeth yn datgan byddai angen cofrestru'r brydles beth bynnag a gwell fyddai gwneud hyn yn y lle cyntaf a'r unig fater byddai angen wedyn byddai i adnewyddu ar ddiwedd cyfnod y brydles. | **CLERC** |
| **1.3** | TWIG EOI Glan Faenol - trafodwyd y mater a phenderfynu anfon ymateb cefnogol i'r fenter. | **CLERC** |
| **1.4** | Golau Safle Bws Ffordd Gaernarfon ger Cerrig yr Afon - cafwyd gwybodaeth oddi wrth Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus bod Arrive wedi gwneud cais am olau stryd ar gyfer cysgodfan bws ar safle bws ger Cerrig yr Afon Ffordd Caernarfon. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd bod y Clerc yn cael gwybod y gost cyn wneud penderfyniad i osod colofn yno. Dilyniant - y pris i godi colofn fyddai £2648 & TAW | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **2.1** | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | Derbyniwyd gwariant mis Gorffennaf ac Awst 2025. Derbyniwyd hefyd adroddiadau ariannol ar gyfer yr y ddau fis. | |
| **3.2** | Penderfynwyd y byddai cyfarfod o'r pwyllgor Rheolaeth yn cael ei drefnu yn fuan er mwyn edrych ar y gyllideb mewn da bryd. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf. | |
| **4.2** | Toiledau - credir nad yw'r gwaith wedi dechrau. Trefniant mewn llaw i'r contractwr dderbyn allwedd y safle gan swyddogion Gwynedd. | **CLERC** |
| **4.3** | Cynllun Rheoli Traffig - dim dilyniant i'r cynllun hyd yma. Heb dderbyn dyfynbris y gwaith ychwaith ar gyfer edrych os oes modd cyllido'r gwaith gan y Cyngor Cymuned. Y Clerc i wneud ymholiadau ar gyfer costau | **CLERC** |
| **4.4** | Llwybr Cerrig yr Afon - dim dilyniant hyd yma bod y gwaith ffensio, y Cynghorydd Eifion Williams i ymholi'r contractwr os oes dyddiad wedi cael ei benderfynu. Yn y cyfamser mae gwaith dros dro wedi ei wneud. | **EW** |
| **4.5** | Cae Chwaraeon Lan y Môr - cais cynllunio yn cael ei gwblhau dros yr haf gan y Clerc. Angen datganiad ynglŷn â llifogydd. Ymweliad safle wedi bod gan Swyddog adran eiddo a Cadeirydd y Cyngor i drafod prydles. Penderfynwyd byddai brydles yn cael eu gwneud i gynnwys y Cae Pêl droed a'r Parc Cychod bach. Bydd y brydles am 7 mlynedd yn y lle cyntaf. Er hynny mae angen cadarnhau os bydd cyfnod y brydles yn y lle cyntaf yn effeithio cyfleoedd y Cyngor i gael grantiau. Y Clerc i drafod y mater hwn gyda'r Swyddog Eiddo. | **CLERC/EG** |
| **4.6** | Llwybr Cerrig yr Afon - dim gwaith wedi ei wneud yno hyd yma. Mae gwaith dros dro wedi ei wneud gan y ffarmwr. Y Cynghorydd Eifion Williams i wneud ymholiadau a'r contractwr i weld pa bryd bydd y gwaith yn cael ei gwblhau. | **CLERC/EW** |
| **4.7** | Cludiant cyhoeddus Y Felinheli - Dim gweithred wedi bod gan Gyngor Gwynedd i ail baentio'r safle er bod sawl cais wedi mynd atynt i ddatgan bod y gwaith hwn yn flaenoriaeth. Mae'r safle yn cael ei ddefnyddio gan gerbydau i barcio. Mae pwrpas arall i'r safle hefyd fel man pasio ond os yw wedi ei ddefnyddio gan gerbydau i barcio nid yw'r safle i gael ar gyfer llif traffig i basio. Mae achlysuron wedi bod lle mae traffig o'r ddau gyfeiriad wedi cwrdd ag yn methu mynd nôl nac ymlaen. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i ddatgan anfodlonrwydd y Cyngor | **CLERC/EG** |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymuned gyda'r gwasanaeth y mae yn ei dderbyn. Angen hefyd anfon copïau at y Prif Weithredwr, Uwch Swyddog yr Adran Briffyrdd a'r ddau aelod lleol. Dros y gwyliau mae'r Cynghorydd Emyr Gareth wedi cysylltu Thrafnidiaeth Cymru ac wedi derbyn ymateb nad ydynt yn gallu gwneud dim ynglŷn â'r gost o ddefnyddio'r gwasanaeth bws rhwng Y Felinheli, Chaernarfon a Bangor. | |
| **4.8** | Ciosg Aberpwll - Y Clerc i wneud trefniadau ar gyfer mabwysiadu'r ciosg. | |
| **4.9** | Cais cynllunio Cae Pêl droed - angen adroddiadau llifogydd. | |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **5.1** | Rhif Cais: C25/0525/20/DT Lleoliad: 1 Gwylan Uchaf, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4YJ Bwriad: Cyfnewid porth agored presennol am estyniad unllawr blaen newydd gyda balconi uwchben, estyniad llawr cyntaf ochr i gymryd lle balconi presennol, estyniad unllawr cefn, porth cefn ac addasiadau cyffredinol i ffenestri a gorffeniad. **DIM GWRTHWYNEBIAD** | **CLERC** |
| **5.2** | Rhif : C25/0335/20/DT Lleoliad: 29 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PB Bwriad: Gosod 18 panel solar ar do'r eiddo. **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **5.3** | Rhif Cais: C25/0562/20/DTLleoliad: 18 Uwch Menai, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4HJ Bwriad: *Ail osod ffenest llawr gwaelod gyda drysau plyg, codi balconi llawr gwaelod uwchben lefel islawr a dymchwel adeilad storfa allanol atodol i gefn yr eiddo.* **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **5.4** | Rhif Cai: C25/0220/20/RA Lleoliad: Caffi Lloft Hwyliau, Glan Y Môr, Y Felinheli, LL56 4RQ Bwriad / Proposal: Cais i ryddhau amod 7(manylion ffens diogelwch) ar ganiatad rhif C24/0189/20/RA **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **5.5** | Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Proses Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd Hysbysrwydd o dan Erthyglau 2C a 2D Cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio Datblygiad a gynhelir ar dir yn, ac yn agos at, Safle Cyn-Ferodo, Ffordd Caernarfon, Caernarfon.<br>**SYLWADAU** - Y Cyngor angen cyfarfod rhithiol os yn bosib cael ymateb i'r materion isod:<br>i. Effaith gweledol<br>ii. ii. Effaith amgylcheddol - y gwres a gynhyrchir. Oes modd ail-ddefnyddio'r gwres?<br>iii. Effaith ar y Fenai<br>iv. Adnoddau lleol,<br>v. Economi - swyddi vi. Partneriaethau a sefydliadau addysgol (coleg Menai. vii. Buddiant i'r Gymuned | |
| **5.6** | Rhif Cais: C25/0589/20/TC Lleoliad: Hotel Port Dinorwic, Plas Dinorwic Ffordd Siabod, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4XA Bwriad: Cais tystysgrif cyfreithlon er mwyn cadarnhau bod caniatâd i godi 8 tŷ ar y safle yn fyw. **DIM** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **GWRTHWYNEBIAD** Er hynny mae'r Cyngor yn awyddus i ddatgan bod consyrn gyda safon y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma a chredir dylai archwiliad gael i wneud i'r gwaith. | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| | Pris wedi ei wneud i gynnal y cysgodfannau. Y gwaith i'w gwblhau yn fuan. Y Clerc i holi'r contractwr pa bryd fydd y gwaith yn cael ei gwblhau. | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **8.1** | Cafwyd adroddiad bod llwybr 21 tu gefn i Snowdon Street angen toriad i'r gordyfiant. Y Clerc i gysylltu a'r contractwr. | **CLERC** |
| **8.2** | Cafwyd adroddiad hefyd bod llwybrau linc yn enwedig yr un o'r Wern i Rhes Gwelfor. Y Clerc i gysylltu a Ardal Ni. | **CLERC** |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Dim gwybodaeth ychwanegol i'r mis diwethaf. | **DW** |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Dim adroddiad | **EG** |
| | Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.30 yn yr hwyr. | |
| **Llofnod:** | | |



Heather Lynne Jones